**J Doe**
**07123 456789 | [jdoe@hotmail.com](mailto:jdoe@hotmail.com) | LinkedIn**

Rwy'n fyfyriwr angerddol yn ei flwyddyn gyntaf o astudio Peirianneg Sifil ym Mhrifysgol Caerdydd, ac sydd â diddordeb cryf mewn atebion cynaliadwy a gwella bywydau. Sgiliau datblygedig o weithio'n rhan o dîm, bod yn hyblyg a sgiliau cyfathrebu a gafodd eu datblygu drwy gyfleoedd gwirfoddoli. Yn awyddus i gymhwyso'r wybodaeth a'r profiad technegol rydw i'n eu hennill drwy fod yn Gynorthwyydd Prosiect Iau yn Engineers Without Borders.

## ADDYSG

**MEng Peirianneg Sifil,** *Prifysgol Caerdydd* 2023 - 2027

- **Hanfodion Peirianneg Sifil:** Wedi ennill sylfaen gadarn mewn dadansoddi adeileddol, gwyddor deunyddiau, peirianneg geodechnegol, a mecaneg hylifol. Wedi datblygu sgiliau wrth gynllunio ac asesu prosiectau isadeiledd, megis systemau cyflenwi dŵr a systemau sylfaenol.
- **Dylunio ac Ymarfer Cymhwysol:** Wedi ennill profiad ymarferol ym meysydd dylunio peirianneg a rhoi prosiectau ar waith, gan ddefnyddio offer Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD) ac egwyddorion dylunio cynaliadwy. Wedi gweithio ar brosiectau'n rhan o dîm i ddatrys problemau peirianneg yn y byd go iawn drwy gymhwyso ymarferol a gwaith maes.

**Safon Uwch:** Mathemateg Bellach A, Ffiseg A, Addysg Gorfforol B, *Chweched Dosbarth Caerdydd* 2021 – 2023

**TGAU:** 11 x 9 - 4, gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth, *Ysgol Uwchradd Caerdydd* 2016 - 2021

## PROFIAD PERTHNASOL

**Wythnos Gwirfoddoli Llysgenhadon STEM,** *STEM Learning* Chwefror 2024

- Wedi cyflwyno gweithdai rhyngweithiol ar amryw bynciau ym maes STEM i fwy na 5000 o fyfyrwyr mewn gwahanol ysgolion uwchradd a cholegau.
- Wedi cynnig ysbrydoliaeth a chyd-destun yn y byd go iawn i ddysgwyr ifanc drwy gysylltu pynciau STEM â byd gwaith, gan ennyn brwdfrydedd a diddordeb ym meysydd STEM.
- Wedi defnyddio hyfforddiant a chymorth a gafodd eu darparu gan Lysgenhadon STEM i gynnig ystod o weithgareddau yn hyderus i hybu myfyrwyr i ystyried gyrfaoedd ym maes STEM.

## SGILIAU

- **Gweithio'n rhan o dîm:** Cydweithio'n agos â chydweithwyr yn ystod Wythnos Llysgenhadon STEM i wthio ymgysylltiad yn ei flaen, a chyflawni nodau a rennir mewn modd effeithlon.
- **Cyfathrebu:** Rwyf ar fy ngorau wrth gyfleu cysyniadau technegol cymhleth i gynulleidfaoedd amrywiol, gan ddefnyddio sgiliau cyfathrebu cryf wedi'u coethi drwy ymgysylltu â sesiynau'r Llysgenhadon STEM hynny sy'n ceisio ennyn diddordeb myfyrwyr.
- **Datrys Problemau**: Ymagwedd ragweithiol at ddatrys problemau, defnyddio meddwl dadansoddol a chreadigrwydd i fynd i'r afael â heriau'n effeithiol, fel y'u mireiniwyd yn ystod fy ngradd beirianneg, drwy nodi a datrys problemau sy'n codi dro ar ôl tro, a datblygu atebion arloesol, gan wella ymarferoldeb ac effeithlonrwydd.
- **Y gallu i addasu:** Y gallu i addasu i gyd-destunau newydd wrth wirfoddoli yn y Caffi Atgyweirio, gan weithio dan amodau sy'n newid yn gyson a bod yn hyblyg wrth fynd i'r afael ag anghenion gwahanol.
- **Bod yn ddadansoddol:** Hyfedredd wrth gasglu, dadansoddi a dehongli data i lywio penderfyniadau a gwelliannau prosiect a fireiniwyd drwy astudio gradd.

## PROFIAD PELLACH

**Atgyweiriwr Gwirfoddol,** *Caffi Atgyweirio* Rhagfyr 2023 – Presennol

- Wedi cyfrannu at yr economi gylchol a chynaliadwyedd amgylcheddol drwy atgyweirio ac adfer eitemau sydd wedi torri yn rhad ac am ddim, eu dargyfeirio o safleoedd tirlenwi a hyrwyddo diwylliant o ailddefnyddio ac ailgylchu.
- Wedi cydweithio â thîm o wirfoddolwyr, ac wedi rhyngweithio ag aelodau'r cyhoedd i gynnig gwasanaethau atgyweirio cyfeillgar ac effeithlon, gan feithrin ymdeimlad o stiwardiaeth gymunedol ac amgylcheddol.
- Wedi addysgu ymwelwyr am y buddion y mae atgyweirio yn eu cael ar yr amgylchedd a'u hannog i ystyried opsiynau atgyweirio cyn troi at waredu, hyrwyddo diwylliant o ailddefnyddio a chadw adnoddau.

**Gweinydd bar**, *Cosy Club* Ionawr – Gorffennaf 2023

- Hyfedredd wrth baratoi ystod amrywiol o ddiodydd, gan dynnu ar wybodaeth helaeth ynghylch y cyfuniadau o gynhwysion sydd eu hangen.
- Cynnig gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid mewn bar prysur dros ben a datrys heriau annisgwyl a gododd yn ystod oriau prysur mewn modd effeithiol, gan ddangos fy ystwythder a’m gallu i wneud penderfyniadau’n gyflym.
- Wedi sicrhau glendid a chadw trefn y tu ôl i'r bar, gan gadw at safonau glanweithdra a phrotocolau diogelwch i gynnal amgylchedd hylan.

## AELODAETH

**Aelod sy’n Fyfyriwr**, *Sefydliad y Peirianwyr Sifil* 2023 – Presennol

- Rwy’n cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu proffesiynol a digwyddiadau rhwydweithio yn y gymuned beirianneg sifil.
- Rwy’n cadw’n gyfredol gyda'r datblygiadau a'r tueddiadau diweddaraf ym maes peirianneg sifil drwy gyhoeddiadau, cylchlythyrau a phlatfformau ar-lein gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil, sy’n cyfoethogi fy nhaith academaidd a phroffesiynol.

## DIDDORDEBAU

**Pêl-rwyd:** Chwaraewr pêl-rwyd cystadleuol sy’n aelod o Dîm Pêl-rwyd yr Ysgol Peirianneg, gan chwarae yng nghynghrair fewnfurol Prifysgol Caerdydd. Mae hyn yn dangos fy ngallu i weithio’n rhan o dîm, arweinyddiaeth ac ymrwymiad i'r tîm. Rwy’n datblygu sgiliau cyfathrebu a strategol cryf drwy gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi rheolaidd a chwarae mewn gemau cystadleuol.